Department for Environment Food & Rural Affairs

Environment Agency

# Perfformiad a monitro diogelwch argaeau - arfer gorau

## Crynodeb o'r Prosiect SC900027/S

Gall corff mawr o ddŵr sydd wedi'i gronni gan argae beri risg sylweddol i'w berchnogion a'r rhai sy'n byw i lawr yr afon. Defnyddir rhaglenni monitro diogelwch argae i reoli'r risg hwn mewn modd cost-effeithiol. Mae Grŵp Buddiant Diogelwch Argaeau yn y Ganolfan ar gyfer Hyrwyddo Ynni drwy Arloesedd Technolegol (CEATI) bellach wedi cyhoeddi canllawiau arfer gorau ar gyfer perfformiad a monitro diogelwch argae. Mae'r canllawiau'n seiliedig ar brofiadau pobl sydd wrthi'n monitro perfformiad diogelwch argaeau ac ar adolygiad o gyhoeddiadau diweddar.

Mae'r adroddiad yn amlinellu gofynion rhaglen lwyddiannus o fonitro perfformiad ar gyfer argaeau newydd neu argaeau sydd eisoes ar waith. Mae'n nodi cyfrifoldebau pawb sy'n gysylltiedig â'r argae, yn tynnu sylw at yr angen am werthuso amserol a chadw dogfennau ynghylch perfformiad cyffredinol argae, ac yn pwysleisio pa mor bwysig yw cydlynu a chyfathrebu da ynghylch y rhaglen fonitro a'i chydrannau rhwng y perchennog, gweithredwyr a pheirianwyr diogelwch yr argae. Mae'r adroddiad yn darparu dull systematig o fonitro perfformiad argae a'i chynnal a'i chadw ac yn casglu enghreifftiau o arfer da o ran gwyliadwriaeth, arolygu, offeryniaeth, dadansoddi, rheoli a dehongli.

Mae'r adroddiad hefyd yn disgrifio sut mae argaeau yn methu ac yn nodi gwerth ymgorffori modd dadansoddi methiant posibl i mewn i raglen monitro perfformiad diogelwch argae sy'n seiliedig ar risg. Trwy ddefnyddio'r dull hwn gall perchnogion argaeau gael amcangyfrifon rhifiadol o'r lleihad mewn risg a ddaw o fonitro perfformiad. Cyflwynir y rhesymau o blaid, a manteision, monitro perfformiad diogelwch argae fel offeryn rheoli risg.

Mae'r canllawiau'n cynnwys yr argymhellion canlynol.

- Dylid datblygu rhaglen diogelwch argae yn seiliedig ar y math o argae, ei gyflwr a photensial y perygl. Dylai monitro perfformiad gynnwys archwiliad gweledol o'r argae a'i dalgylch, ynghyd â mesuriadau ffisegol.
- Mae cynnal a chadw parhaus ac uwchraddio systemau monitro perfformiad yn hanfodol. Mae cynnal a chadw'n cynnwys graddnodi offerynnau yn rheolaidd, eu glanhau, eu trwsio neu pan fo angen, eu newid am rai newydd / eu diweddaru.
- Dylai perchennog neu weithredwr yr argae bennu un person i fod yn atebol yn gyffredinol am ddatblygu, cynnal ac adolygu rhaglen fonitro perfformiad diogelwch argae.
- Rhaid i fonitro perfformiad gael ei wneud yn rheolaidd gan weithwyr proffesiynol cymwys, y mae eu hyfforddiant yn cael ei ddiweddaru ac sy'n gallu dehongli data monitro.
- Dylai perchennog yr argae ymateb yn brydlon i bob canfyddiad sy'n ymwneud â diogelwch argae er mwyn lleihau'r risg cymaint ag sy'n rhesymol bosibl.

**Adroddiad:** SC090027/R
**Teitl:** Monitro a Rheoli Data Diogelwch a Rheoli Data Argae – Arfer Gorau

Ariannwyd y prosiect hwn trwy gydweithrediad 21 o sefydliadau o bob cwr o'r byd, gan gynnwys Cyfarwyddiaeth Tystiolaeth Asiantaeth yr Amgylchedd. Gellir cael mwy o wybodaeth a chopïau o'r adroddiad llawn drwy gysylltu â CEATI (manylion isod) gan ddefnyddio rhif cyfeirnod y prosiect '0210 '.

**Cod Cynnyrch yr Adroddiad:** [leave blank]

**Statws Mewnol:** Rhyddhawyd i bob rhanbarth
**Statws Allanol:** Cyfyngedig

**Rheolwr y prosiect:** Dave Hart, Y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth
**Y sefydliad blaen ar gyfer ymchwil ar y cyd:**
CEATI International Inc.
1010 Sherbrooke St West, Suite 2500
Montreal, Quebec, Canada H3A 2R7
Ffôn: +1 514 8665377
E-bost: info@ceati.com

**Contractwyr Ymchwil:**
William Broderick, Paul Rizzo Associates Inc., Tarry Town, Efrog Newydd, UDA a W. Allen Marr, Geocomp Corporation, Acton, MA, UDA

Cewch gopïau pellach o'r crynodeb hwn o'n catalog cyhoeddiadau: http://publications.environment-agency.gov.uk neu oddi wrth ein Canolfan Gyswllt Genedlaethol Ffôn: 08708 506506
Ymholiadau: enquiries@environment-agency.gov.uk.

© Asiantaeth yr Amgylchedd.